# Nodiadau ar gymhwystra partner sy'n cyd-fyw i dderbyn pensiwn goroeswr

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.**

Os ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig, bydd eich partner yn derbyn pensiwn goroeswr yn awtomatig, os ydych chi'n marw o'u blaenau nhw.

Os ydych chi'n byw gyda'ch partner ond heb briodi na ffurfio partneriaeth sifil gyda nhw, byddant yn cael eu hadnabod fel partner sy'n cyd-fyw â chi. Efallai y byddant yn gymwys i dderbyn pensiwn goroeswr, os byddwch chi'n marw o'u blaenau nhw, ond mae'n rhaid i chi fod wedi talu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **ar 1 Ebrill 2008, neu o hynny ymlaen.**

I fod yn gymwys i dderbyn pensiwn goroeswr, mae'n rhaid i'r holl amodau a nodir yn y datganiad ar y ffurflen fod yn berthnasol i chi a'ch partner am gyfnod parhaus o ddwy flynedd neu fwy cyn y dyddiad a nodwch wrth lofnodi'r ffurflen.

Pan fyddwch chi'n marw, bydd pensiwn goroeswr yn cael ei dalu i'ch partner sy'n cyd-fyw â chi, cyn belled â bo Cronfa Bensiynau Clwyd yn fodlon:

- Eich bod chi'ch dau'n dal i fyw gyda'ch gilydd ar ddyddiad eich marwolaeth, ac
- Nad ydych chi na'ch partner wedi bod yn byw gyda rhywun arall fel petaech yn ŵr, gwraig neu bartner sifil gyda'r unigolyn arall hwnnw
- Bod eich partner sy'n cyd-fyw â chi yn gallu profi hefyd y bodlonwyd yr amodau am gyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf yn syth cyn eich marwolaeth. Er enghraifft, cadarnhad eich bod wedi byw ar aelwyd a rennir gan rannu gwariant yr aelwyd, neu fod gennych chi gyfrif banc neu forgais gyda'ch gilydd.

Bydd hawl i apelio os gwneir penderfyniad i beidio â thalu pensiwn a bod eich partner yn credu bod ganddynt hawl i'r pensiwn.

Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen wedi'i llenwi, bydd y wybodaeth yn cael ei chofrestru ar eich cofnod pensiwn a bydd llythyr o gadarnhad yn cael ei anfon atoch chi.

**Cofiwch roi gwybod i ni os bydd unrhyw newidiadau i statws eich partneriaeth.**

# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
# Manylion y partner sy'n cyd-fyw i dderbyn pensiwn goroeswr

**Manylion yr Aelod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | | |
| **Rhif YG:** | | **Dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif Ffôn:** | |

**Dewis Iaith:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg** | ☐ | **Saesneg** | ☐ | **Dwyieithog** | ☐ |

**Dewis o ran Cyfathrebu:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) **(Dewiswch UN opsiwn yn unig)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Electronig**<br>*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig:<br>**https://mss.clwydpensionfund.org.uk** | ☐ | **Papur** | ☐ |

**Manylion eich Partner:** (Os bydd pensiwn goroeswr yn daladwy o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, dyma fanylion cyswllt fy mhartner sy'n cyd-fyw)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw Llawn:** | | | |
| **Rhif YG:** | | **Dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif Ffôn:** | |

**Datganiad:**

Rydym ni'n cadarnhau, am gyfnod parhaus o ddwy flynedd neu fwy cyn dyddiad y datganiad hwn, bod yr holl ddatganiadau canlynol yn gywir:

- Rydym wedi bod yn rhydd i briodi ein gilydd neu ffurfio partneriaeth sifil gyda'n gilydd, ac
- Rydym wedi byw gyda'n gilydd fel gŵr a gwraig neu fel partneriaid sifil cofrestredig, a
- Does yr un ohonom wedi bod yn byw gyda rhywun arall fel gŵr a gwraig neu fel partneriaid sifil, ac
- Fel partneriaid, mae un ohonom yn dibynnu ar y llall yn ariannol, neu ar ein hincwm ar y cyd, i gefnogi ein safonau byw

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod yr aelod:** | | **Dyddiad:** | |
| **Llofnod y partner sy'n cyd-fyw:** | | **Dyddiad:** | |

**Dylid dychwelyd y ffurflen hon wedi ei chwblhau at Gronfa Bensiynau Clwyd drwy un o'r dulliau canlynol:**

Uwchlwytho'r ffurflenni drwy 'Uwchlwytho Dogfen' ar Hunanwasanaeth Aelodau

**pensiynau@siryfflint.gov.uk**

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF